



Swyddog Cyswllt:
Sharon Thomas 01352 702324
sharon.b.thomas@flintshire.gov.uk

At: Bob Aelod o'r Cyngor

Dydd Mercher, 14 Hydref 2020

Annwyl Gynghorydd,

RHYBUDD O GYFARFOD ANGHYSBELL
CYNGOR SIR Y FFLINT
DYDD MAWRTH, 20FED HYDREF, 2020 2.00 PM

Yn gywir

Robert Robins
Rheolwr Gwasanaethau Democraidd

Sylwch: Oherwydd y cyfyngiadau presennol ar deithio a'r gofyniad am gadw pellter corfforol, ni chynhelir y cyfarfod hwn yn y lleoliad arferol. Bydd hwn yn gyfarfod rhithiol a bydd 'presenoldeb' yn gyfyngedig i Aelodau'r Cyngor. Bydd y cyfarfod yn cael ei recordio.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democraidd ar 01352 702345.

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Pwrpas: I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

2 COFNODION (Tudalennau 5 - 22)

Pwrpas: I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfodydd ar 9 a 29 Medi 2020.

3 DATGAN CYSYLLTIAD

Pwrpas: I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

4 CYDNABOD Y GWOBRAU I BOBL LEOL AR RESTR ANRHYDEDDU PEN-BLWYDD Y FRENHINES

Mae'r Cyngor yn falch o gydnabod bod y bobl ganlynol o Sir y Fflint wedi'u cynnwys ar Restr Anrhydeddu Pen-blwydd y Frenhines 2020 a gyhoeddwyd ar 10 Hydref.

Derbynydd	Tref / cymuned	Anrhydedd	A dderbyniwyd am
Rt. Hon. David George Hanson	Fflint	Urdd Marchog	Yn Aelod Seneddol i Delyn yn ddiweddar. Am wasanaeth gwleidyddol.
Cyng David Evans (Dwyrain Shotton)	Penarlag	OBE	Am wasanaeth cyhoeddus.
Eric Harries Peake	Fflint	MBE	Am wasanaethau i'r Celfyddydau a Chadwraeth Adaryddiaeth.
Bethan Sian Reece	Fflint	MBE	Cynghreiriad Iechyd Meddwl. Am wasanaethau i weinyddu cyfiawnder.
John Challenger	Fflint	BEM	Am wasanaethau i bobl ifanc yn y Gogledd Orllewin yn ystod Covid 19.
Robert Alan Forrester	Fflint	BEM	Wedi bod yn rheolwr gweithredu bad achub, Gorsaf Bad Achub Sir y Fflint. Am wasanaethau gwirfoddol ac achosion da i'r Sefydliad Bad Achub Cenedlaethol Brenhinol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

5 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Pwrpas: Derbyn unrhyw gyhoeddiad fel y'i dosbarthwyd.

6 DEISEBAU

Pwrpas: Mae hwn yn gyfle i Aelodau'r Cyngor gyflwyno deisebau ar ran pobl yn eu ward. Unwaith y byddant wedi dod i law, caiff deisebau eu pasio i'r Prif Swyddog priodol ar gyfer gweithredu ac ymateb iddynt.

PRIF EITEMAU BUSNES

7 ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2019/20 (Tudalennau 23 - 90)

Adroddiad Prif Weithredwr -

Pwrpas: Mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2019/20.

8 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2019/20 (Tudalennau 91 - 108)

Adroddiad Rheolwr Cyllid Corfforaethol -

Pwrpas: Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2019/20 drafft i'r Aelodau

EITEMAU CYFFREDIN BUSNES

9 DATGANIAD DIWYGIEDIG AR BOLISIAU TAL AR GYFER 2020/21 (Tudalennau 109 - 172)

Adroddiad Prif Weithredwr, Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol -

Pwrpas: Mae'n ofynnol bod bob cyngor yn cyhoeddi eu Datganiad ar Bolisiau Tal erbyn mis Ebrill bob blwyddyn. Y Datganiad ar Bolisiau Tal a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yw'r wythfed Datganiad blynyddol a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir y Fflint.

10 RHEOLAU GWEITHDREFN ARIANNOL (Tudalennau 173 - 238)

Adroddiad Rheolwr Cyllid Corfforaethol -

Pwrpas: Cymeradwyo'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

11 **RHESTR O GYDNABYDDIAETHAU ARIANNOL AR GYFER 2020/21**
(Tudalennau 239 - 254)

Adroddiad Prif Swyddog (Llywodraethu) -

Pwrpas: I'r Cyngor gymeradwyo'r rhestr o gydnabyddiaethau ariannol ar gyfer Aelodau etholedig a chyfetholedig ar gyfer 2020/21 ar gyfer eu cyhoeddi, gan fod yr holl benodiadau wedi eu gwneud.

12 **ADOLYGU PROTOCOL AELODAU / SWYDDOGION** (Tudalennau 255 - 276)

Adroddiad Prif Swyddog (Llywodraethu) -

Pwrpas: Mabwysiadu Protocol Aelodau / Swyddogion Diwygiedig.

ER GWYBODAETH YN UNIG

13 **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Pwrpas: Derbyn Cwestiynau Cyhoeddus ar gyfer yr eitem hon: doedd dim wedi dod i law erbyn y dyddiad cau.

14 **CWESTIYNAU**

Pwrpas: Nodi'r atebion i unrhyw gwestiwn a gyflwynwyd yn unol â Rheol Sefydlog 9.4(A) y Cyngor Sir: doedd dim wedi dod i law erbyn y dyddiad cau.

15 **CWESTIYNAU GAN AELODAU AM GOFNODION PWYLLGORAU**

Pwrpas: Mae'r Llyfr Cofnodion, Argraffiad 1 2020/21, wedi ei ddosbarthu i'r Aelodau. Mae hawl gan yr Aelodau ofyn cwestiynau am y cofnodion hyn, yn amodol ar gyfyngiadau penodol, a bydd yr atebion yn cael eu darparu yn y cyfarfod. Gofynnir i Aelodau ddod â'u copi o'r Llyfr Cofnodion i'r cyfarfod. Mae'n rhaid cyflwyno unrhyw gwestiwn i'r Rheolwr Democratiaeth a Llywodraethu cyn diwedd y diwrnod gwaith ar Dydd Mercher, 14 Hydref, 2020.

16 **RHYBUDD O GYNNIG**

Pwrpas: Derbyn unrhyw Rhybuddion o Gynnig: doedd dim wedi dod i law erbyn y dyddiad cau.